OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 1155 (Cy.72)

IECHYD PLANHIGION, CYMRU
HADAU, CYMRU

Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Ffrwythau (Diwygio) (Cymru) 2005

Wedi'u gwneud - -	*12 Ebrill 2005*
Yn dod i rym - -	*30 Ebrill 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewrop 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo yn rhinwedd yr adran honno, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol —

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Ffrwythau (Diwygio) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 30 Ebrill 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Ffrwythau 1995(**3**) o ran Cymru, yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn lle Atodlen 1 i'r Rheoliadau hynny rhodder yr Atodlen ganlynol —

"SCHEDULE 1 Regulation 3(1)

Genera and species to which these Regulations apply

Castanea sativa Mill. (Chestnut)	*Prunus armeniaca* L. (Apricot)
Citrus L. (e.g. Grapefruit, Lemon, Lime, Mandarin and Orange)	*Prunus avium* (L.) L. (Sweet cherry)

(**1**) O.S. 1999/2788.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 1995/2653.